

Rhif: WG23315



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad

Rheoliadau a chod ymarfer mewn
perthynas â Rhan 2 o Ddeddf
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
(Cymru) 2014

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2015

Rheoliadau a chod ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 o'r Ddeddf - Crynodeb o'r Ymgynghoriad

<u>Cynnwys</u>	Tudalen
<u>Adran 1</u>	
Cyflwyniad	2
Cefndir	6
Y dystiolaeth ar gyfer newid	6
Y cynigion	7
<u>Adran 2</u>	
Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad	10
Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr	41

Adran 1

Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i'r fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer rheoliadau a chodau ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 o'r Ddeddf, ar swyddogaethau cyffredinol gan gynnwys llesiant, asesiad o'r boblogaeth, atal, hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, a darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 6 Tachwedd 2014 a 2 Chwefror 2015.

O'r dechrau, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i weithio gyda phobl i helpu i lunio'r is-ddeddfwriaeth a'r gweithredu ac i gyflawni'r newid ymarfer a diwylliant sy'n cael ei ysgogi. Gweithiodd pobl mewn Grwpiau Technegol i helpu i ddatblygu'r cyfarwyddiadau polisi, y rheoliadau a'r codau ymarfer ar gyfer rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Roedd y Grwpiau Technegol yn rhai traws-sector ac yn ehangach – er enghraifft, awdurdodau lleol, sectorau iechyd, gwirfoddol ac annibynnol, sefydliadau dan arweiniad defnyddwyr, banc a chyfiawnder ieuencid. Mae'r grwpiau hyn wedi edrych ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*. Sicrhaodd y broses hon amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau drafft a'r cod ymarfer yr ymgynghorwyd arnynt.

Roedd yn bwysig sicrhau ymgysylltu ehangach, a thrwy gefnogaeth ein partneriaid roeddem yn gallu gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau i ddod â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr at ei gilydd i gael eu barn uniongyrchol ar yr hyn oedd yn bwysig iddynt hwy a'r hyn yr oedd angen ei newid, fel rhan o'r broses ymgynghori.

Gweithiodd Anabledd Cymru gyda phartneriaid i baratoi dogfen arweiniol i lywio gwaith yr holl Grwpiau Technegol, *Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol: Pecyn Galluogi i Gymru* ac mae hyn wedi ei weithredu wrth inni ddatblygu rheoliadau a'r codau ymarfer.

Ystyriodd y Panel Cenedlaethol Dinasyddion ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol rai agweddau allweddol ar yr ymgynghoriad gan baratoi adroddiadau i lywio'r ymgynghoriad ar integreiddio a thalu am ofal yng nghyfes 2, a diogelu a thaliadau uniongyrchol yn y gyfres hon.

Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Plant yng Nghymru, Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol, Voices from Care, Gofalwyr Cymru, Cymorth Cymru a Bywydau Cymunedol wedi cefnogi'r ymgynghoriad mewn amrywiaeth o ffyrdd; er enghraifft cynnal grwpiau ffocws, cyfarfodydd, cyflwyniadau a sesiynau holi ac ateb lle roedd pobl yn cymryd rhan yn uniongyrchol wrth ddadlau am yr ymgynghoriad a'i drafod.

Yn ogystal â'r dull hwn o ymgysylltu, cafwyd cyfanswm o 83 o ymatebion ysgrifenedig i ran 2. Atodir rhestr o dderbynwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru yn Adran 2.

Roedd yr ymgynghoriad ar gael yn gyhoeddus a chafodd hefyd ei ddosbarthu i grwpiau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys:-

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Y Comisiynydd Plant
- Byrddau Iechyd Lleol

- Y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Plant yng Nghymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Cynrychiolwyr Llywodraeth Leol

Digwyddiadau Ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori ffurfiol fel rhan o'r broses ymgynghori. Diben y rhain oedd:

- Hyrwyddo ymgysylltu â'r ymgynghoriad
- Darparu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o'r meysydd roeddem yn ymgynghori arnynt i grwpiau o randdeiliaid allweddol.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol i gymryd rhan mewn trafodaethau ar weithredu'r rheoliadau, a hefyd i rannu gwybodaeth o'r digwyddiadau â'u rhwydweithiau ehangach i ysgogi ymgysylltu dyfnach â'r cynigion a rychwant ehangach o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cafodd y digwyddiadau eu rhannu i gael barn amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o'r wlad. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 26 Tachwedd yn Stadiwm Liberty, Abertawe. Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 9 Rhagfyr yn Venue Cymru, Llandudno.

Ar y cyfan, cafwyd ymateb cadarnhaol o ran y nifer a fanteisiodd ar y lleoedd ar gyfer y digwyddiadau, gan gyrraedd y capasiti yn y ddau ddigwyddiad. Roedd tua 170 yn bresennol yn y digwyddiad yn ne Cymru a 90 yn bresennol yng ngogledd Cymru. Roedd yr amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolaeth gan:

- AGGCC
- Cynghrair Henoed Cymru
- Anabledd Cymru
- Anabledd Dysgu Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Cartrefi Cymru
- CEM Abertawe
- CLILC
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru
- Cymdeithas Gofal Cartref y DU
- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
- Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion
- Cyngor Gofal Cymru
- Estyn Llaw
- Gwasanaeth Ambiwllans Cymru
- Gwasanaeth Gwarchodol a Chadw G4S
- Hafal
- Headway
- Heddlu De Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- NOMS Cymru
- Plant yng Nghymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- RNIB Cymru
- Sefydliad Rowan
- Shine Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- Y Bwrdd Cynghori ar Ddiogelu
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Cymru
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

Cynhaliwyd gweithdai yn y digwyddiadau ar bob rhan yr ymgynghorir arni ar hyn o bryd. Roedd cynnwys y gweithdai hyn yn amrywiol ac wedi ei deilwra i gyd-fynd â'r testun, ond wrth wraidd pob un roedd cyflwyniad gan swyddogion a thrafodaethau a gweithgareddau grŵp.

Cefndir

Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Mae'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau i'w gwneud o dan y Ddeddf a'u gosod yn cael ei gynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'r gyfres gyntaf. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad o fis mis Mai 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu gweithredu ym mis Ebrill 2016.

Y dystiolaeth ar gyfer newid

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Maent yn cynorthwyo 150,000 o bobl bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliaidau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

Mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau

effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy.

Cafwyd trafodaethau ac ymgysylltu gwerthfawr a pharhaus â rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn manau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* gael ei gyhoeddi. Maent ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion^a, a'n Hadolygiad o Ddiogelu^b. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn ein hachos dros newid.

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy broses graffu'r Cynulliad, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi cael ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel *Mwy na Geiriau*, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol^c, prosiect *Galluogi Cymru* sy'n cynorthwyo'n uniongyrchol y broses o gyflawni a gweithredu *Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol* Llywodraeth Cymru a chan dystiolaeth a gafwyd drwy Grwpiau Technegol.

Y cynigion

Rhaid i wasanaethau cymdeithasol fod yn seiliedig ar **lesiant** pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae gan bawb hawl i lesiant ac mae pawb yn gyfrifol am lesiant hefyd. Rhaid cynorthwyo pobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy a chael mwy o lais a rheolaeth dros ofal a chymorth: bydd hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer gwella ar draws y sector. Mae Pennod 1 o'r Cod ymarfer ("y Cod") yn nodi'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant a dyletswyddau hollgyffredinol eraill pan fyddant yn arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf.

^a <http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm>

^b <http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?skip=1&lang=cy>

^c <http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

Diben yr **asesiad o'r boblogaeth** yw sicrhau bod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn paratoi sail dystiolaeth glir a phenodol ar y cyd mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr i lywio penderfyniadau cynllunio a gweithredol amrywiol. Mae'r Rheoliadau a Phennod 2 o'r Cod yn nodi'r gofynion ar gyfer cynnal yr asesiad hwn o'r boblogaeth.

Mae **atal** wrth wraidd rhaglen Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'u gwneud yn gynaliadwy. Mae Pennod 3 o'r Cod yn nodi'r gofynion ar wasanaethau cymdeithasol i ddarparu neu drefnu amrywiaeth o wasanaethau ataliol. Rhaid i'r asesiad o'r boblogaeth nodi amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaethau ataliol sy'n ofynnol.

O dan adran 16 o'r Ddeddf rhoddir dyletswydd gyffredinol newydd ar awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt hyrwyddo modelau gwasanaeth sy'n **fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, modelau eraill sy'n cynnwys pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt i ddylunio a gweithredu eu gwasanaethau, a'r trydydd sector**. Mae hyn yn sail i nod cyffredinol y Ddeddf o roi pobl yn y canol ac mae'n darparu fframwaith cyfreithiol lle y bydd awdurdodau lleol yn mynd ati'n weithredol i ystyried sefydliadau sy'n seiliedig ar werthoedd o ran nodi'r model busnes mwyaf addas i ddarparu gwasanaethau – gan sicrhau eu bod yn ystyried y defnydd o fentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol yn eu hamrywiol ffurfiau fel ffyrdd o ddarparu gwasanaethau. Mae'r rheoliadau a Phennod 4 o'r Cod yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r ddyletswydd hon.

Y gwasanaeth **Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy** yw'r gwasanaeth sy'n gorfod helpu *pawb* i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy perthnasol, cywir ac amserol am eu gwasanaethau llesiant ataliol lleol a fyddai'n hygyrch ac yn gymesur â'u hanghenion. Rhaid i'r Gwasanaeth fod yn

hygyrch i bawb a chynnig safon gyson o wasanaeth ledled Cymru; trafodir y gofynion ar gyfer y gwasanaeth hwn ym mhennod 5 o'r Cod.

Adran 2 - Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Ymateb Cyffredinol

Mae amrywiaeth a dyfnder yr ymgysylltu a'r ymatebion ffurfiol wedi llywio'r rheoliadau a'r codau ymarfer, a hefyd wedi nodi offer a dulliau a fydd yn cynorthwyo gweithredu ymhellach. Mae'n bwysig dweud yma y cafwyd cefnogaeth eang a chadarnhaol i'r rheoliadau drafft a'r codau ymarfer. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd y cyfraniad sylweddol a wnaed gan bartneriaid a rhanddeiliaid yn ystod y broses ddatblygu. Mae ymgysylltiad a chyfraniadau amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau yn ystod yr ymgynghoriad ei hun wedi gwella'r cod a'r rheoliadau yn sylweddol.

Croesawodd yr ymatebwyr gyfeiriad cyfan y rheoliadau a'r cod ymarfer, yn enwedig y canolbwynt cryf ar ganlyniadau llesiant, atal a llais cryf a rheolaeth i bobl. Ar draws yr ymatebion i amrywiaeth eang o gwestiynau cafwyd sylwadau cadarnhaol ar werth y dull newydd lle mae pobl yn bartneriaid gydag ymarferwyr.

Ceir sawl thema sy'n effeithio ar y cyfan o ran 2. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i sicrhau bod pawb yn cael eu galluogi i ymgysylltu ag agweddau amrywiol y newid system gyfan, arwyddocâd y newid diwylliant, y ffordd y bydd angen defnyddio adnoddau yn y dyfodol a'r heriau sy'n rhan gynhenid o hynny a'r angen am raglen hyfforddi ac ymwybyddiaeth. Mae'r rhain yn cysylltu â'r gofyniad i sicrhau gweithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol, un sy'n cael ei gynorthwyo i weithio o fewn newid diwylliant ac sy'n gweithio gyda phobl fel partneriaid cyfartal, gan ddeall bod pobl yn asedau. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyngor Gofal Cymru i arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth dysgu a datblygu. Mae'r strategaeth hon yn allweddol i weithredu'r Ddeddf a bydd angen arweinyddiaeth barhaus, fwriadol a phroffil uchel, a all estyn allan ar draws amrywiaeth eang o sefydliadau a phartneriaid y tu hwnt i ffiniau gofal a chymorth cymdeithasol traddodiadol. Mae'r Cyngor wedi datblygu'r gwaith hwn gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod strategaeth sy'n cwmpasu pawb sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth, ynghyd â'u partneriaid allweddol, a'i bod yn cael ei chyflawni ar y cyd â phartneriaid ac mewn cydweithrediad â hwy.

Mae arweinyddiaeth gref yn hanfodol i fwrw ati â'r gweithredu. Rhaid i'r arweinyddiaeth honno barhau i fod yn draws-sector, yn drawsbleidiol a sicrhau bod pobl yn y canol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Grŵp Arweiniad a Phanel y Dinasyddion er mwyn cynorthwyo'r newid hwn, a sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn parhau wrth wraidd y rhaglen ar gyfer newid.

Mae rhai newidiadau sylfaenol wedi eu gwneud. Er enghraifft, byddwch yn gweld bod Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl anabl yn cael eu cynnwys yn y cod ymarfer, a fydd yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae sawl rhan o'r cod wedi eu cryfhau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, yn enwedig o ran cyfranogi ac ymgysylltu.

Rhoddodd yr ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer adnoddau pellach ac i gynorthwyo gweithredu'r Ddeddf yn fwy eang. Mewn rhai achosion, cyfeiriwyd at y rhain yn y codau ymarfer, ond, yn allweddol, maent yn rhoi cyfle ar gyfer gwaith pellach i gynorthwyo ac mae'r rhain wedi eu hamlygu mewn ymatebion penodol. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys datblygu amrywiaeth o ddulliau i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r asesiad o'r boblogaeth; canllawiau pellach ar alluogi pawb i gyfranogi yn y trefniadau gwasanaethau cymdeithasol newydd ar bob lefel a chael eu cynnwys yn y trefniadau hyn, a chynorthwyo'r sector a'i agor i fodolau busnes newydd o'r Trydydd Sector, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.

Wrth ddarllen yr ymatebion i'r cwestiynau yn rhan 2, ceir dadansoddiadau meintiol ac ansoddol o dan bob cwestiwn. Lle roedd cyfle ar gyfer amrywiaeth eang o atebion, mae dadansoddiad wedi'i gynnwys. Lle roedd cwestiynau naill ai'n fwy penodol neu'n gofyn am naratif, ni cheir gwybodaeth feintiol.

Yn ogystal â nodi'r themâu allweddol o'r ymgynghoriad, mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi pa gamau sydd wedi eu cymryd a pha gamau a

fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pwyntiau penodol. Lle mae rheoliadau a chodau wedi eu diwygio a lle mae camau gweithredu ychwanegol sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd, wedi eu cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd, nodir hyn. Er enghraifft, wrth wneud gwaith pellach neu wrth gomisiynu cymorth yn 2015-16.

Cwestiwn 1:

	1. I ba raddau rydych yn cytuno y bydd y bennod hon yn cynorthwyo awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant wrth gynnal eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	17	25	14	0	27

Crynodeb

Roedd 75 y cant o'r ymatebion yn cytuno neu'n dueddol o gytuno y bydd y bennod yn cynorthwyo awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant wrth gynnal eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Croesawodd mwyafrif yr ymatebion y canolbwynt ar lesiant a'r pwyslais ar hawliau, atal ac ymyrryd yn gynnar yn y bennod, gyda rhai'n cymeradwyo eglurder y bennod. Yn ogystal, croesawyd y ffaith y bydd pobl yn cael mwy o ran drwy weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol i gydgyhyrchu atebion.

Nododd rhai ymatebion mai holl wasanaethau awdurdodau lleol yn ogystal â'u partneriaid a chymunedau sy'n gyfrifol am lesiant, gyda sawl un yn cyfeirio at fyrddau iechyd yn enwedig. Gofynnodd llawer i'r bennod gynnwys gofynion cryfach ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i gydweithio, gyda chyfeiriad penodol at y berthynas rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol mewn perthynas â chyflawni llesiant.

Croesawodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig. Croesawodd y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant gynnwys Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Croesawodd yr ymatebion y dyletswyddau a roddir ar bobl sy'n darparu gofal a chymorth i ystyried barn, dymuniadau a theimladau unigolion a phwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas unigolyn. Fodd bynnag, cafwyd galwadau i'r dyletswyddau i 'roi sylw' gael eu cryfhau ac am eglurhad pellach. Roedd y Comisiynydd Plant o'r farn bod angen eglurhad pellach ac y dylid ymhelaethu ar y cod. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi awgrymu sut y dylai

'sylv dyladwy' weithredu drwy ddefnyddio egwyddorion Brown.

Gwnaeth yr ymatebion hefyd alw am roi 'sylv dyladwy' i gryfhau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl Hŷn.

Nododd pymtheg o sefydliadau'r Trydydd Sector gan gynnwys Anabledd Cymru a Chynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion y dylid cynnwys dyletswyddau i roi sylv dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Amlygodd yr ymatebion yr angen am fwy o hyfforddiant i staff er mwyn cyflawni'r newid diwylliant sy'n ofynnol. Byddai hyn yn cynorthwyo awdurdodau lleol i fodloni'r gofyniad i sicrhau bod y gwasanaethau y mae pobl yn eu cael yn unigol, i'w cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu yn y cod ymarfer i gynorthwyo awdurdodau lleol a'u partneriaid yn eu dyletswyddau i 'roi sylv' a 'sylv dyladwy' yn unol â'r gofynion statudol ac egwyddorion Brown.

Bydd egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl anabl yn cael eu cynnwys yn y cod ymarfer, a fydd yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol i roi sylv dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Cwestiwn 2:

	2. I ba raddau rydych yn cytuno y bydd y bennod hon yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni gwell canlyniadau llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	12	30	11	1	29

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno neu'n tueddu i gytuno y bydd y bennod yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni gwell canlyniadau llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt (78 y cant).

Rhoddodd rhai ymatebwyr sylwadau ar uchelgais y bennod a defnyddioldeb y datganiadau o ganlyniadau o ran nodi a mesur cyflawni canlyniadau. Cafodd y pwyslais a'r canllawiau sy'n nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i

weithio gyda phobl i nodi canlyniadau llesiant eu croesawu hefyd.

Gwnaeth ymatebwyr hefyd amlygu'r her o fesur canlyniadau, gyda rhai'n nodi pwysigrwydd sicrhau bod y canlyniadau cywir yn cael eu nodi i bobl. Cafwyd galwad hefyd am ganllawiau a hyfforddiant i gynorthwyo awdurdodau lleol i fesur canlyniadau yn bersonol ac yn genedlaethol.

Nododd ymatebwyr y rôl y mae gwasanaethau eirioli yn ei chwarae i gynorthwyo pobl i leisio eu barn wrth drafod yr hyn sy'n bwysig iddynt; a phryder na fyddai'n bosibl i grwpiau o bobl, gan gynnwys plant, leisio eu barn heb wasanaethau o'r fath. Nododd yr ymatebion y dylai canllawiau mewn perthynas â disgwyliadau am ddarparu gwasanaeth eiriolaeth fod yn gliriach.

Nododd eraill y dylai'r gofyniad i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gydweithio i wella canlyniadau llesiant i bobl gael ei gryfhau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae astudiaeth beilot i ddatblygu a phrofi ymarferoldeb cofnodi ac adrodd ar ganlyniadau personol yn genedlaethol yn cael ei chynnal ar hyn o bryd gan Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cod ymarfer ar fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys canllawiau mewn perthynas â mesur canlyniadau unigol ac mae'n cael ei ddatblygu ymhellach yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol.

Bydd cod ymarfer ar eiriolaeth yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori arno o dan ail gyfres y rhaglen weithredu ar gyfer y Ddeddf.

Cwestiwn 3

	3. I ba raddau rydych yn cytuno bod y bennod hon yn cynorthwyo awdurdodau lleol i rymuso pobl i gael perthynas gyfartal â gwasanaethau cymdeithasol?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	4	31	13	6	29

Crynodeb

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno neu'n tueddu i gytuno bod y bennod yn cynorthwyo awdurdodau lleol i rymuso pobl i gael perthynas gyfartal â gwasanaethau cymdeithasol.

Gwnaeth sawl un o'r ymatebion nodi a chroesawu'r dull i rymuso pobl drwy roi llais cryfach a mwy o reolaeth iddynt dros y gofal a'r cymorth maent yn eu derbyn. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai y gallai perthynas gyfartal fod yn anodd ei chyflawni lle ceir gofyniad i ymyrryd er mwyn diogelu neu amddiffyn.

Cafwyd galwadau am ganllawiau mwy penodol ar gydgyhyrchu, sut y bydd pobl yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau am eu bywyd a sut i gynorthwyo perthynas gyfartal â gwasanaethau cymdeithasol yn ymarferol. Codwyd yr angen am ddulliau i gynorthwyo ymarferwyr i gael sgwrs wahanol â phobl a hyfforddiant i gynorthwyo'r newid gofynnol mewn ymddygiad a diwylliant, a chafodd pwysigrwydd gwybodaeth hygyrch er mwyn cynorthwyo pobl i wneud penderfyniad hyddysg ei grybwyll hefyd.

Roedd llawer o ymatebwyr yn credu y gellid cryfhau'r dull o gydgyhyrchu ymhellach, gyda rhai'n creu cysylltiadau â mentrau cydweithredol, sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr a grwpiau cymunedol a'r rôl y gallent ei chwarae wrth gynorthwyo awdurdodau lleol. Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod yr iaith yn gyfyngol a'i bod yn darllen fel y gwasanaethau cymdeithasol yn 'gwneud i bobl' yn hytrach na 'gwneud gyda phobl'. Nodwyd hefyd nad oedd cyfeiriad at gynnwys pobl wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ehangach yn ogystal ag yn eu hasesiad eu hunain.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd cyfeiriad at gydgyhyrchu yn cael ei gryfhau yn y cod ymarfer mewn perthynas â dylunio a gweithredu gwasanaethau ar bob lefel. Bydd iaith y cod ymarfer hefyd yn cael ei diwygio i adlewyrchu'n gryfach ddull gweithio mewn partneriaeth rhwng ymarferwyr a phobl.

Cwestiwn 4:

	4. I ba raddau rydych yn cytuno bod strwythur arfaethedig adroddiad yr asesiad o'r boblogaeth yn glir ac yn briodol?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	5	29	19	4	26

Crynodeb

Roedd cefnogaeth sylweddol i'r ffordd mae'r cod ymarfer drafft a'r rheoliadau'n disgrifio strwythur arfaethedig yr adroddiad ar asesiad o'r boblogaeth. Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, rhoddodd nifer o ymatebwyr sylwadau defnyddiol hefyd mewn perthynas â'r modd y mae'r cod ymarfer yn rhagnodi sut y dylid cynnal adroddiad ar asesiad o'r boblogaeth.

Er bod y cod yn nodi strwythur a chynnwys yr adroddiad asesiad o'r boblogaeth, awgrymodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, dempled penodol ar gyfer adroddiadau i alluogi gwneud cymariaethau haws o anghenion gofal a chymorth ledled Cymru.

Galwodd Sense Cymru am adlewyrchu anghenion y rhai sy'n fyddar a dall yn well yn y cod. Awgrymodd Cŵn Tywys Cymru a Blind Children UK (Cymru), ynghyd â Sense Cymru ychwanegu "colli synhwyr" fel un o'r themâu craidd sy'n ofynnol gydag adroddiadau asesiad o'r boblogaeth.

Roedd sawl ymatebydd, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, yn cytuno â'r angen i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol fod yn arloesol o ran nodi ffynonellau data lleol ond awgrymwyd hefyd set ddata sylfaenol i lywio'r asesiad o'r boblogaeth.

Nododd Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â nifer o ymatebwyr eraill angen am gysylltiadau cliriach â gofynion cynllunio eraill, yn enwedig y rhai a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd Barnardo's Cymru yn teimlo y dylid rhoi mwy o gyfeiriad mewn perthynas â dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu â phlant, er enghraifft, drwy grwpiau defnyddwyr sefydledig i blant a phobl ifanc.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd amrywiaeth o offer i gynorthwyo awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gynnal asesiadau o'r boblogaeth yn cael eu paratoi. Bydd hyn yn cynnwys ystyried nodi set ddata sylfaenol a phecyn cymorth i gynorthwyo yn y broses. Gwneir gwaith gyda rhanddeiliaid i adolygu'r amrywiaeth o ddata sydd ar gael i lywio asesiadau o'r boblogaeth ac ystyried a ellir canoli'r wybodaeth er hwylustod. Gallai'r pecyn cymorth weithredu fel pwynt cyfeirio i amrywiaeth o ddogfennau a gwefannau a allai fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu asesiadau o'r boblogaeth a chynnwys rhyw fath o dempled.

Mae anghenion pobl â nam ar y synhwyr a'u gofynion penodol yn cael eu cydnabod, a hefyd y cais i ddiwygio'r rhestr o themâu craidd i adlewyrchu hyn. Byddwn yn ystyried cryfhau'r cod i adlewyrchu anghenion pobl â nam ar y synhwyr yn fwy cyffredinol.

Fel yr awgrymwyd gan Gofal, elusen iechyd meddwl flaenllaw yng Nghymru, bydd geiriad y thema graidd yn ymwneud â thrais domestig yn cael ei ddiwygio fel ei fod yn darllen "*trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol*" yn unol â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Rydym yn cydnabod yr awgrym y gall trefniadau arbennig fod yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ymgysylltu â phlant yn llwyddiannus, a bydd y cod yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny. Yn yr un modd, bydd y cod yn cael ei ddiwygio i nodi'r angen i ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol, fel pobl ddigartref a theithwyr, er mwyn llywio'r asesiad o'r boblogaeth. Mae

amrywiaeth o ganllawiau ar gael ar hyn o bryd a byddwn yn adolygu hyn a datblygu canllawiau mwy penodol mewn perthynas ag ymgysylltu â dinasyddion fel rhan o'r pecyn cymorth ehangach y cyfeiriwyd ato yn flaenorol, gan gynnwys y defnydd o 'Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru' Cyfranogaeth Cymru a 'Chanllawiau ymarfer gorau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn ar newidiadau i wasanaethau cymunedol yng Nghymru' y Comisiynydd Pobl Hŷn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu cyswllt statudol rhwng yr asesiad o'r boblogaeth a'r Cynlluniau Llesiant Lleol newydd. Fodd bynnag, ni fydd y ddarpariaeth ar gyfer Cynlluniau Llesiant Lleol yn dechrau cyn bod fersiwn gyntaf y cod ymarfer hwn yn cael ei chyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Felly byddai'n amhriodol cyfeirio at y gofyniad cynllunio hwn ar y cam hwn. Fodd bynnag, efallai y caiff y cyfeiriad hwn ei ddiweddarau mewn rhifynnau dilynol o'r cod ymarfer. Bydd offer anstatudol arall i gynorthwyo'r asesiad o'r boblogaeth yn cael ei gynllunio i adlewyrchu'r trefniadau cynllunio ehangach yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd y cod yn cael ei gryfhau i adlewyrchu barn nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Canolfan Adsefydlu Cymunedol Cymru, bod angen rhoi mwy o bwyslais ar y cysylltiadau rhwng yr asesiad o'r boblogaeth a dogfennau cynllunio a chyllidebol eraill awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd.

Cwestiwn 5:

	5. I ba raddau rydych yn cytuno bod y bennod hon yn darparu ar gyfer asesiad effeithiol o anghenion cymorth gofalwyr?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	6	22	14	5	36

Crynodeb

Cadarnhaodd llawer o ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y graddau y mae'r cod yn darparu ar gyfer asesiad effeithiol o anghenion cymorth gofalwyr. Roedd eraill yn teimlo bod hwn yn faes y gellid ei gryfhau.

Roedd Gofalwyr Cymru yn pryderu nad oedd y ddyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â gwasanaethau ataliol yn ddigon cryf ac, yn wahanol i awdurdodau lleol, ni cheir gofyniad statudol i ddarparu gwasanaethau ataliol i ddefnyddwyr a'u gofalwyr. Gwnaeth eraill, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Age Cymru, fynegi pryder ynghylch canlyniadau posibl yn deillio o ddiddymu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.

Awgrymodd Cynghrais Henoed Cymru angen i ddatblygu strategaethau ar gyfer asesu anghenion y bobl hynny nad ydynt yn cael mynediad i wasanaethau ar hyn o bryd, a rhybuddiodd yn erbyn dibynnu ar ddata ystadegol yn unig. Maes arall o bryder oedd diwallu anghenion gofalwyr a all eu hunain fod ag anghenion gofal a chymorth heb eu diwallu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae rôl hanfodol gofalwyr o ran darparu gwasanaethau ataliol ynghyd â'r ffaith y gall fod angen lefel o gymorth personol ar ofalwyr eu hunain yn cael ei gydnabod. Bydd y cod yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn yn fwy cadarn a phwysleisio angen awdurdodau lleol i gynorthwyo gofalwyr i fyw eu bywydau eu hunain mor annibynnol â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys bod yn ymwybodol o anghenion a chanlyniadau iechyd a llesiant gofalwyr eu hunain er mwyn cynorthwyo a chynnal rôl ataliol gofalwyr o ran gofal a chymorth i eraill.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 fel bod yn rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol nodi'n benodol sut y maent yn bwriadu ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth, gan gynnwys mewn perthynas ag anghenion cymorth gofalwyr. Mae'r diwygiad hwn yn cwmpasu agweddau allweddol a adlewyrchir ym Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr Cymru (2010) oherwydd ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gyflwyno unrhyw elfen o gynllun sy'n ymwneud â gofalwyr i Weinidogion Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â manylion y ddarpariaeth gynllunio newydd hon yn dilyn cychwyn y darpariaethau perthnasol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) y flwyddyn nesaf.

Bydd y cod yn egluro bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn nodi'r angen i Fyrddau Iechyd Lleol roi sylw i bwysigrwydd bodloni dibenion adran 15. Bydd y cod hefyd yn amlygu bod atal yn hanfodol i fenter Gofal Iechyd Darbodus Llywodraeth Cymru a'i fod yn ategu egwyddor integreiddio a dull amlasiantaeth i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl.

Un o themâu allweddol y Ddeddf yw'r egwyddor "llais a rheolaeth" ac mae'r cod yn pwysleisio'r angen i gynnwys dinasyddion yn y broses o gynnal yr asesiad o'r boblogaeth. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol weithredu proses i nodi anghenion gofal a chymorth canfyddedig pobl (gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr). Bydd y broses hefyd yn nodi'r amrywiaeth o wasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Bydd y cod yn amlygu rôl sefydliadau'r trydydd sector o ran nodi pobl nad ydynt o bosibl yn hysbys i awdurdodau lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol. Bydd hyn yn cynnwys gofalwyr, a all fod ag anghenion gofal a chymorth heb eu diwallu eu hunain.

Cwestiwn 6:

Pa drefniadau y dylid eu rhoi ar waith i gynorthwyo ymhellach y rhai sy'n cynnal asesiadau o'r boblogaeth?

Crynodeb

Roedd gofynion hyfforddiant staff a'r goblygiadau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â chynnal asesiadau o'r boblogaeth yn faterion a nodwyd gan sawl ymatebydd, gan gynnwys Cyngor Gwynedd a Chyngor Bro Morgannwg. Galwodd nifer o ymatebwyr am ryddhau adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn hwyluso'r broses o gynnal asesiadau o'r boblogaeth.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys y Groes Goch Brydeinig, y dylai'r asesiad o'r boblogaeth fapio'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol, gan sicrhau dealltwriaeth ymarferol o'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r canlyniadau cymharol sy'n gysylltiedig â darpariaethau presennol.

Nododd y Comisiynydd Plant yr angen i awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'u proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, i lywio datblygu'r asesiad o'r boblogaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r angen i awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant a chymorth parhaus i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf yn cael ei gydnabod, gan gynnwys y gofyniad i baratoi asesiad o'r boblogaeth. Bydd amrywiaeth o offer i gynorthwyo ymarferwyr i baratoi asesiad o'r boblogaeth yn cael eu datblygu, gan sicrhau bod y pecyn cymorth yn mynd i'r afael â materion allweddol, er enghraifft mapio asedau'r gwasanaethau presennol a ddarperir.

Bydd gofyniad i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Leol gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag egwyddor adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf, gan gynnwys mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei gynnwys yn y cod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnig y Grant Trawsnewid i'r chwe phartneriaeth ranbarthol a phartneriaid cenedlaethol a ddewiswyd ers 2013-14 i alluogi llywodraeth leol a'i phartneriaid i weithredu gofynion y Ddeddf. Bydd y grant hwn, a gynyddwyd i £3m yn 2015-16, yn cynorthwyo awdurdodau lleol i dalu am unrhyw gostau ychwanegol posibl wrth ddatblygu'r asesiad o'r boblogaeth. Bydd cyllid yn parhau i fod ar gael yn 2016-17 i gynorthwyo gweithredu parhaus, yn amodol ar benderfyniadau cyllidebol terfynol.

Cwestiwn 7:

	7. I ba raddau rydych yn cytuno ei bod yn briodol bod adroddiadau asesiad o'r boblogaeth yn cael eu cymeradwyo mewn awdurdodau lleol gan y cyngor llawn ar ôl cael eu cyflwyno gan weithrediaeth neu fwrdd y cyngor?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	39	9	1	0	34

Crynodeb

O ran adroddiad yr asesiad o'r boblogaeth, roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno â'r gofyniad i awdurdodau lleol gael cymeradwyaeth gan y cyngor llawn. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai fod gan randdeiliaid a phartneriaid eraill rôl i'w chwarae o ran cymeradwyo'r adroddiad terfynol. Awgrymodd y Comisiynydd Plant y dylai fforymau ieuenctid lleol graffu ar yr asesiad o'r boblogaeth.

Tynnwyd sylw at anhawster posibl cael cytundeb ar y cyd yr holl awdurdodau lleol o ran paratoi adroddiad asesiad o'r boblogaeth, ynghyd ag ansicrwydd o ran sut y gellir datrys materion o'r fath. Awgrymodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill y dylid ystyried sancsiynau ar gyfer diffyg cydymffurfio gan unrhyw bartner.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid wrth ddatblygu'r asesiad o'r boblogaeth. Cydnabyddir bod y trydydd sector, y sector preifat, ymarferwyr, aelodau o staff a dinasyddion o bob oedran i gyd yn ffynonellau pwysig o wybodaeth wrth gynnal yr asesiad. Mae eu cyfraniad yn rhan annatod o baratoi asesiad o'r boblogaeth sy'n ystyrlon ac yn llawn gwybodaeth. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd yw'r gofyniad statudol i baratoi asesiad o'r boblogaeth. Am y rheswm hwn byddai'n amhriodol ymestyn y meini prawf ar gyfer "cymeradwyo" a chymeradwyaeth derfynol i eraill.

Er y cydnabyddir rhywfaint o'r heriau sy'n gysylltiedig â pharatoi adroddiad asesiad o'r boblogaeth ar y cyd, mae'n ofynnol i'r holl awdurdodau lleol mewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol ffurfio trefniant partneriaeth effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd hwnnw at ddibenion cynnal adroddiad asesiad o'r boblogaeth. Bydd y cod ymarfer yn cael ei ddiwygio i egluro mai cyfrifoldeb y corff cydlynu arweiniol yw datrys unrhyw broblemau a all atal paratoi adroddiad cyfunol ar y boblogaeth i sicrhau bod gofynion adran 14 o'r Ddeddf yn cael eu bodloni. Yn ogystal, ychwanegir cyfeiriad yn y cod at y defnydd o fyrdau partneriaeth, y darperir ar eu cyfer o dan adran 168, wrth geisio datrys unrhyw wrthdaro o fewn cytundeb partneriaeth.

Cwestiwn 8:

	8. I ba raddau rydych yn cytuno bod rôl y corff cydgysylltu arweiniol yn ddigon clir?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	9	20	15	5	34

Crynodeb

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r gofyniad am gorff cydlynu arweiniol gwnaeth llawer, gan gynnwys NSPCC Cymru a Fforwm Datblygu Cwmnïau Cydweithredol Cymdeithasol Cymru, ofyn am fwy o eglurder ynghylch sut y byddai'r trefniant hwn yn gweithio yn ymarferol.

Roedd lefel dda o gefnogaeth ar gyfer ffurfio trefniant partneriaeth at ddibenion cynnal asesiad o'r boblogaeth. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Age Cymru a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol, yn aneglur ynghylch sut y byddai adroddiadau asesiad o'r boblogaeth yn cael eu cyfuno.

Mynegwyd pryder hefyd gan rai ymatebwyr ynghlŷn ag effaith ad-drefnu llywodraeth leol yn y dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd y cod yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith y dylai'r cyrff yn y trefniadau partneriaeth ystyried arbenigedd, gwybodaeth ac adnoddau presennol wrth benderfynu pwy fydd yn gweithredu fel y corff arweiniol. Bydd y cod hefyd yn cael ei ailysgrifennu i gadarnhau y gellir adolygu'r corff arweiniol a enwebwyd fel y gwêl y bartneriaeth yn dda. Bydd hyn yn rhoi cyfle i sefydliadau eraill yn y bartneriaeth y cytunwyd arni ymgymryd â rôl corff arweiniol os ystyri'r hynny'n briodol.

Bydd y disgwyliad am sut y bydd adroddiadau asesiad o'r boblogaeth yn cael eu cyfuno o dan drefniant partneriaeth yn cael ei nodi'n gliriach.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai diwygio'r sector cyhoeddus yn y dyfodol newid natur y trefniadau partneriaeth. Bydd asesiad ar y cyd yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol benderfynu sut i ddiwallu angen a nodwyd ar y cyd, ac felly arwain at well cynaliadwyedd. Mae'r dull hwn yn unol â chyfeiriad cyffredinol ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Cwestiwn 9:

	9. I ba raddau rydych yn cytuno bod y gofynion a roddir ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ataliol yn glir?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	9	30	12	2	30

Crynodeb

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn cefnogi'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau ataliol ac roedd y mwyafrif yn cytuno bod y cod yn glir o ran nodi'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag roedd awgrym y byddai diffiniad cliriach o 'wasanaethau ataliol' yn ddefnyddiol.

Mynegodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, bryder y gall awdurdodau lleol, ar adeg o galedi, ei chael yn anodd dyrannu'r lefel ofynnol o gyllid i wasanaethau ataliol.

Awgrymodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) y dylai'r cod gael ei gryfhau i gynnwys y rôl bwysig y gall y trydydd sector ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau ataliol.

Dywedodd rhai ymatebwyr gan gynnwys Cŵn Tywys Cymru a Blind Children UK (Cymru) fod diffyg canolbwynt ar blant yn adrannau gwasanaethau ataliol y cod, yn enwedig mewn perthynas ag ailalluogi.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd y cod yn cael ei gryfhau i bwysleisio y bydd awdurdodau lleol, drwy nodi amrywiaeth a lefel angenrheidiol y gwasanaethau ataliol fel rhan o'r asesiad o'r boblogaeth, yn gallu dyrannu cyllidebau ac adnoddau'n effeithiol i fuddsoddi mewn mynd i'r afael â materion yn ataliol. Bydd y cod hefyd yn cael ei ddiweddarau i nodi'r amgylchiadau lle gall awdurdod lleol godi ffioedd am wasanaethau ataliol, fel rhan o'r drefn gyffredinol o godi ffioedd.

Bydd yr angen i awdurdodau lleol weithio ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflawni'r amrywiaeth a'r lefel ofynnol o wasanaethau ataliol yn cael ei egluro. Bydd manteision ychwanegol archwilio cyfleoedd i weithio y tu allan i drefniadau a phartneriaethau presennol, gan gynnwys gweithio gyda'r trydydd sector, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a mentrau cymdeithasol, i ddarparu gwasanaethau yn cael eu pwysleisio. Bydd hyn yn ei dro yn creu cyfle i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a sicrhau'r darbodion maint uchaf.

Mae'r cod ar hyn o bryd yn nodi'r amrywiaeth o ddibenion ar gyfer defnyddio gwasanaethau ataliol i gynorthwyo a chyflawni canlyniadau disgwylidig. Fodd bynnag, byddwn yn diwygio'r cod i sicrhau bod y bwriad yn glir.

Bydd y cod yn cael ei gryfhau i gydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau ataliol i oedolion a phlant, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal.

Ymdrinnir â chyllid i gynorthwyo darparu gwasanaethau ataliol hefyd mewn ymateb i C.10 isod.

Cwestiwn 10:

	10. I ba raddau rydych yn cytuno bod y bennod hon yn egluro'r gofyniad i wasanaethau ataliol ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad o'r boblogaeth a gynhaliwyd o ganlyniad i adran 14 o'r Ddeddf?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	18	23	9	1	32

Crynodeb

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi cysylltu eu sylwadau ar gyfer y cwestiwn hwn â'u ymateb i gwestiwn 9. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y bennod hon yn egluro'r gofynion o ran gwasanaethau ataliol. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn ac NSPCC wedi myfyrio ar angen i fod yn fwy penodol mewn perthynas â gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau ataliol. Roedd yr angen i'r holl bartneriaid perthnasol gydymffurfio â cheisiadau am gydweithredu mewn perthynas â darparu gwasanaethau ataliol yn faes ychwanegol o bryder.

Awgrymodd y Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd fwy o ganolbwynt ar yr heriau penodol yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau ataliol i'r rhai sy'n byw yn ardaloedd gwledig Cymru.

Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Menter Cydweithredol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, y dylai'r amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol gael eu hystyried wrth gynllunio amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a pheidio â'i gyfyngu i'r gwasanaethau hynny sy'n amlwg o fewn gwasanaethau cymdeithasol.

Nododd Age Cymru ac eraill eiriolaeth fel maes sydd angen ei gryfhau. Gofynnodd Cyngor Sir Ddinbych i'r cod gyfeirio'n gliriach at effaith tlodi ac y dylai gyfeirio at fenter Cymunedau yn Gyntaf.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r pwysau ariannol ar awdurdodau lleol yn cael eu cydnabod. Fodd bynnag, mae rhoi'r pwyslais ar atal a mynd i'r afael â materion yn gynnar yn allweddol i wneud gwasanaethau yn gynaliadwy. Mae'r asesiad o'r

boblogaeth yn galluogi awdurdodau lleol i nodi sut y maent yn bwriadu mynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth a nodwyd yn ataliol. Bydd angen i awdurdodau lleol fod yn arloesol o ran eu dull o ymdrin â gwasanaethau ataliol, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, cyflawni gwerth am arian ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r trydydd sector a darparwyr eraill i ddiwallu anghenion a nodwyd.

Mae amrywiaeth o ffrydiau ariannol ar gael gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gwasanaethau ataliol, gan gynnwys y Gronfa Gofal Canolraddol a'r Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Yn ogystal, bydd rheoliadau mewn perthynas â chodi ffioedd am ofal, gan gynnwys gwasanaethau ataliol, o dan adran 69 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori arnynt ym mis Mai 2015. Bydd y polisi ar godi ffioedd mewn perthynas â gwasanaethau ataliol yn cael ei adlewyrchu yn y cod.

Bydd y cod yn cael ei gryfhau mewn perthynas â mynegi'n glir bod eiriolaeth yn wasanaeth ataliol, ac y dylai gael ei hystyried fel rhan o amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion a nodwyd, i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i'w llais gael ei glywed - gan gynnwys y rhai y mae angen i'w teulu, eu ffrindiau neu eraill eirioli ar eu rhan.

Bydd y cod hefyd yn cael ei gryfhau i adlewyrchu agenda Gofal Iechyd Darbodus Llywodraeth Cymru. Bydd cyflawni egwyddor integreiddio ar draws gwasanaethau cyhoeddus a dull amlasiantaeth o fudd i'r holl ddinasyddion ac yn eu cynorthwyo, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Byddwn hefyd yn sicrhau bod cyfeiriad mwy penodol at effaith tlodi wrth ddarparu gwasanaethau ataliol.

Mae'r angen i werthuso effeithiolrwydd gwasanaethau ataliol yn cael ei gydnabod. Bydd y cod yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at yr angen i awdurdodau lleol roi sylw i effeithiolrwydd gwasanaethau ataliol a drefnir neu a ddarperir, yn benodol mewn perthynas â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Bydd y cod hefyd yn cyfeirio at AGGCC yn ystyried effeithiolrwydd y ddarpariaeth o wasanaethau ataliol fel rhan o arolygiadau yn y dyfodol.

Rhaid i'r adroddiadau asesiad o'r boblogaeth cyntaf gael eu cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2017. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu amrywiaeth o wasanaethau ataliol o fis Ebrill 2016. Bydd y cod yn cael ei ddiwygio i ddarparu canllawiau ychwanegol ar gyfer y cyfnod pontio hwn.

Cwestiwn 11:

	11. I ba raddau rydych yn cytuno y bydd y bennod hon yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn eu dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	5	34	11	1	32

Crynodeb

Gwnaeth y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn roi sylwadau ar y cod ymarfer gyda 76 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn naill ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno. Nododd yr ymatebwyr fod y canllawiau yn glir ac yn gadarnhaol, a chroesawyd y canolbwynt cryf ar egwyddorion cydgyhyrchu, gan ddweud y dylai'r egwyddorion hyn gael eu cymhwyso'n gyson drwy gydol y penodau eraill. Croesawodd Gofalwyr Cymru'r ddyletswydd i hyrwyddo a theimlwyd y gallai'r Trydydd Sector chwarae rôl strategol. Gwelwyd bod yr egwyddorion cydgyhyrchu yn ddefnyddiol o ran pwysleisio'r angen i'r awdurdod lleol cyfan hyrwyddo gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr.

Croesawyd cynnwys *Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol: Pecyn Galluogi i Gymru* - a baratowyd gan Anabledd Cymru ac sy'n nodi'r rhwystrau i gyfranogi a sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn.

Nododd rhai ymatebwyr feysydd lle byddai angen rhagor o gymorth i sicrhau'r newid system a diwylliant sy'n ofynnol. Ymhlith y sylwadau manylach roedd cynigion penodol ar gyfer canllawiau ymarfer pellach, offer, gwybodaeth a hyfforddiant i helpu i sicrhau bod y ddyletswydd yn llwyddiant. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar yr angen am fuddsoddi i alluogi hyrwyddo a chyflawni modelau amgen.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod strwythuro'r cod ymarfer o amgylch y pum elfen allweddol yn glir. Cafodd pwysigrwydd comisiynu, tendro a chaffael wrth gyflawni'r ddyletswydd hon ei amlygu gan wyth ymatebydd gan gynnwys awdurdodau lleol, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a phartneriaid eraill. Amlygodd yr ymatebwyr yr angen i sicrhau bod comisiynwyr a chaffaelwyr yn nodi gwerth ychwanegol a gwell canlyniadau i bobl, ac nad ydynt yn comisiynu yn seiliedig ar gost yn unig. Roedd rhai yn teimlo bod y cod, fel y'i hysgrifennwyd, yn canolbwyntio gormod ar yr agwedd dendro a chaffael a bod angen iddo ystyried comisiynu ymhellach.

Dywedodd yr ymatebwyr yr hoffent weld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ganlyniadau llesiant i atgyfnerthu'r ffaith bod y ddyletswydd yn gyfle i lunio'r system yn gadarnhaol ac nid fel ffordd o leihau costau. Dylai awdurdodau lleol hefyd weithio'n agos gyda chymunedau i lywio, galluogi a'u grymuso i greu eu hatebion eu hunain i gyflawni llesiant. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar sut y gellir cynorthwyo a grymuso unigolion i gymryd perchnogaeth am eu llesiant.

Mynegodd ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

(CLILC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC), Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru, sawl awdurdod lleol a Chymdeithas Alzheimer's awydd i Fyrddau Iechyd Lleol ymwneud â'r ddyletswydd o dan adran 16 yn statudol.

Dywedodd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cymdeithas Alzheimer's a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, y byddai angen i unrhyw fodolau gofal newydd gael eu rheoleiddio'n briodol a sicrhau eu hansawdd; gwnaethant ofyn pa drefniadau fyddai'n cael eu gweithredu i sicrhau safonau.

Gofynnodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y Comisiynydd Plant a'r NSPCC, am eglurder ynghylch sut y bydd y ddyletswydd yn berthnasol i blant a phobl ifanc, yn enwedig mewn perthynas â sut y dylid cynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Cafwyd sylwadau ar y rheoliadau gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Fforwm Gofal Cymru, Fforwm Datblygu Mentrau Cydweithredol Cymdeithasol Cymru, y Grŵp Cyngori ar Anableddau Dysgu, Cyngor Abertawe, Diverse Cymru, Mentrau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru a Chydweithredwyr Blaengar Cymru. Nododd yr ymatebwyr hyn y dylai unrhyw ddiffiniadau o fentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a'r trydydd sector fod yn gynhwysol i sefydliadau sy'n cynnal yr egwyddorion y mae'r Ddeddf yn ceisio eu hyrwyddo. Yn benodol, nododd yr ymatebwyr fod yn rhaid i'r rheoliadau fod yn gydnaws â saith egwyddor hunaniaeth gydweithredu'r Gynghair Gydweithredol Rhyngwladol, ac y dylid cyfeirio at ddeddfwriaeth briodol yn y rheoliadau. Dylai'r rheoliadau hefyd adlewyrchu'r dull partneriaeth y mae'r Ddeddf yn ei hyrwyddo, yn enwedig o ran pwy sy'n gwneud y penderfyniad ynghylch yr hyn y dylid neu na ddylid ei drin fel gweithgarwch neu sefydliad o fewn paramedrau'r ddeddfwriaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r gefnogaeth gyffredinol ar gyfer y bennod hon gan ymatebwyr yn dangos mantais gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Mae'r sylwadau'n arbennig o ddefnyddiol, gan nodi lle mae angen rhagor o eglurder mewn rhai manau.

Mae ymrwymiad i ddarparu cymorth ychwanegol yn 2015-16 i ddatblygu'r sector a chynorthwyo awdurdodau lleol. Bydd gwaith yn parhau gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol a sicrhau cefnogaeth gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru ac arweinwyr eraill yn y maes hwn i helpu i adeiladu'r gallu a'r adnoddau i gyflawni modelau newydd o wasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu grŵp llywio arbenigol i gynghori ar gyflawni offer a chanllawiau ychwanegol a chynorthwyo hyn i helpu awdurdodau lleol i gyflawni ar y ddyletswydd hon.

Bydd y cod ymarfer yn cael ei ddiwygio i'w egluro a'i gryfhau yng ngoleuni'r sylwadau ar gomisiynu, tendro a chaffael. Mae'r adran hon wedi cael ei hailenwi yn "Cynllunio, Hyrwyddo a Chyflawni". Mae wedi cael ei hailddrafftio i

sicrhau canolbwynt ehangach, gan amlygu'r newid gofynnol mewn diwylliant, systemau ac arfer, a chryfhau'r cysylltiad â'r bennod ar Asesiad o'r Boblogaeth. Mae bellach yn cynnwys cyfeiriad at ganllawiau pellach sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r cod ymarfer wedi'i gryfhau i wneud cysylltiadau pellach â diffinio a hyrwyddo llesiant, gan sicrhau bod canlyniadau llesiant personol pobl yn cael eu cyflawni, ac mai llesiant yw'r fframwaith cyfannol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau ynddo. Mae'r dyletswyddau cyffredinol a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig sy'n berthnasol wedi eu nodi ym mhennod 1 ar llesiant, ond cyfeiriwyd atynt yn y bennod hon hefyd.

Mae'r cod bellach yn cynnwys cyfeiriad at y rheoliadau a wnaed o dan adran 166 ar drefniadau partneriaeth yn ymwneud ag asesiadau o'r boblogaeth a sefydlu byrddau cydweithredol rhanbarthol; mae'n nodi lle mae gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddiddordeb ar y cyd mewn comisiynu gwasanaethau, dylent weithio gyda'i gilydd i ystyried ai modelau busnes amgen, dielw, fydd orau er mwyn diwallu anghenion llesiant eu poblogaeth leol. Mae'r cod ymarfer ar Ran 9 o'r Ddeddf yn cynnwys cyngor pellach ar drefniadau partneriaeth.

Bydd cyfeiriad at *Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol: Pecyn Galluogi i Gymru* mewn codau ymarfer eraill.

Mae cyfeiriadau pellach at sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur a rôl arolygu a rheoleiddio wedi eu cynnwys. Rhaid sicrhau bod camau diogelu priodol yn eu lle i bawb sy'n defnyddio gwasanaeth wedi ei reoleiddio. Rydym yn rhan o waith Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i benderfynu sut y mae'r modelau newydd hyn o ddarparu gwasanaethau yn cyd-fynd â'r system reoleiddio fel y bo'n briodol, a sut i fesur llwyddiant y ddyletswydd hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyngor Gofal Cymru i arwain ar ddatblygu strategaeth dysgu a datblygu genedlaethol. Bydd datblygu canolfan gwybodaeth ac adnoddau i gynorthwyo'r gweithlu i weithredu'r Ddeddf yn garreg filltir bwysig. Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor Gofal i sicrhau bod y ganolfan hon yn ystorfa ar gyfer adnoddau allweddol i gynorthwyo'r ddyletswydd o dan adran 16 yn ogystal â chynorthwyo gweithredu ehangach y Ddeddf.

Mae'r rheoliadau wedi eu hailddrafftio i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. Yn y cod rydym wedi cynnwys cyfeiriadau ychwanegol at egwyddorion cydweithredol y Gyngrhair Gydweithredol Rhyngwladol, egwyddorion menter gymdeithasol Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru a chyfeiriad at CGGC.

Cwestiwn 12:

	12. I ba raddau rydych yn cytuno y dylai'r cynnydd ar hyrwyddo'r ddyletswydd yn Adran 16 gael ei adrodd fel rhan o'r gofyniad cyffredinol i adrodd ar yr asesiad o'r boblogaeth?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	19	11	15	1	37

Crynodeb

Roedd consensws cyffredinol y dylai'r asesiad o'r boblogaeth gofnodi'r cynnydd a wnaed ar ddyletswydd gyffredinol adran 16, gyda 65 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn naill ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno. Dangosodd y sylwadau rai safbwyntiau gwahanol. Dywedodd rhai oherwydd y bydd rhan o'r asesiad o'r boblogaeth yn adolygiad o amrywiaeth a lefel y gwasanaethau, mae'n briodol bod cynnydd ar hyrwyddo modelau busnes dielw yn cael ei adrodd drwy'r asesiad o'r boblogaeth. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo y dylai cyflwyno adroddiadau ar y ddyletswydd gyffredinol o dan adran 16 fod yn annibynnol ar yr asesiad o'r boblogaeth.

Cafwyd sylwadau penodol ar yr angen am eglurder pellach o ran sut y byddai llwyddiant yn cael ei fesur a sut y byddai'r adroddiad ar asesiad o'r boblogaeth yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y bydd llwyddiant y ddyletswydd gyffredinol o dan adran 16 yn cymryd peth amser i ddod i'r amlwg ar lefel y boblogaeth. I sicrhau adrodd cywir, bydd angen i'r asesiad o'r boblogaeth gofnodi'n gywir i ba raddau y ceir gwasanaethau'r trydydd sector yn ardal yr awdurdod lleol ac mae'r wybodaeth am y mathau hyn o wasanaethau yn gyfyngedig ar hyn o bryd, rhywbeth y tynnodd CLILC ac ADSSC sylw ato.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, yn ogystal â'r asesiad o'r boblogaeth, yn allweddol i ddeall cynnydd ar gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol o dan adran 16. Bydd y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn rhoi mwy o dryloywder o ran a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella canlyniadau llesiant i bobl yng Nghymru. Bydd y fframwaith mesur perfformiad yn sail i'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ac yn rhoi tystiolaeth am sut y mae gwasanaethau yn cynorthwyo llesiant pobl. Bydd yr asesiad o'r boblogaeth yn nodi'r anghenion ar gyfer gofal a chymorth mewn ardal, amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny ac i ba raddau y mae'r anghenion hynny yn cael eu diwallu neu heb eu diwallu.

Mae'r cod wedi ei ddiwygio i nodi'n gliriach y cysylltiadau rhwng y ddyletswydd o dan adran 14 ar asesiadau o'r boblogaeth a'r ddyletswydd gyffredinol o dan adran 16.

Mae ffyrdd ychwanegol o fesur llwyddiant y ddyletswydd gyffredinol o dan

adran 16 yn cael eu harchwilio. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol a rôl AGGCC. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu o fewn rhaglen waith yn 2015-16.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Canolfan Cydweithredol Cymru i gynnal ymarfer mapio i helpu i sefydlu nifer ac amrywiaeth y mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yr ymarfer hwn yn darparu adnodd cyfoethog a fydd, yn ogystal â chymau pellach a nodwyd ar gyfer 2015-16, yn darparu meincnod i fesur twf mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gofal a chymorth cymdeithasol yng Nghymru.

Cwestiwn 13:

	13. I ba raddau rydych yn cytuno y bydd y bennod hon yn cynorthwyo amgylchedd lle gall pobl gael eu cynorthwyo i gymryd rhan yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	11	31	5	3	32

Crynodeb

Roedd llawer o sylwadau cadarnhaol am sut y bydd y bennod hon yn cynorthwyo amgylchedd lle gall pobl gymryd rhan wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, gydag 84 o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn naill ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno. Cafodd yr egwyddorion cydgynhyrchu yn y cod eu derbyn yn gadarnhaol, gyda cheisiadau i'r egwyddorion hyn gael eu cryfhau drwy gydol y penodau eraill yn y cod. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr y bydd cygynhyrchu gwirioneddol yn her yn ymarferol a bod diffyg hyder yn y dull hwn ar brydiau.

Dywedodd Time 2 Meet y gall awdurdodau lleol ddarganfod beth sy'n bwysig i bobl drwy ofyn iddynt, ac y dylai awdurdodau lleol fod yn onest, gwrando a sicrhau eu bod yn creu'r amgylchedd cywir i bobl weithio gyda hwy. Byddai angen buddsoddi adnoddau mewn sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl i helpu eu hunain, wrth helpu pobl i gymryd cyfrifoldeb.

Ceisiodd rhai ymatebwyr eglurder am gynnwys grwpiau mwy anodd eu cyrraedd wrth gynllunio a gweithredu gwasanaethau. Roedd dymuniad am ganllawiau ymarfer ychwanegol yn gyffredinol ynghylch sut i gynnwys pobl. Pwysleiswyd y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai pobl i allu cyfranogi'n llawn ac na fyddai hyn yn niwtral o ran cost. Dywedodd ychydig o'r ymatebwyr y dylai cynnwys pobl ymestyn i asesu perfformiad gwasanaeth.

Roedd cymorth gan ymatebwyr ar gyfer y canllawiau a'r offer y cyfeiriwyd atynt yn y cod ymarfer drafft. Nododd rhai ymatebwyr adnoddau ychwanegol a fyddai'n ddefnyddiol eu cynnwys yn y cod.

Cafodd pwysigrwydd arweinyddiaeth gref yn lleol ac yn genedlaethol o ran cynnwys pobl ei bwysleisio gan Gyngor Abertawe a Chyngor Sir Ynys Môn. Cafodd y syniad o greu fforymau sy'n cael eu harwain gan ddinasyddion ym mhob ardal ei groesawu hefyd.

Dywedodd y Comisiynydd Plant fod cynllunio a darparu gwasanaethau ataliol mewn ffordd sy'n cael ei llywio gan yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddymuno yn gadarnhaol ac y dylid annog hyn. Fodd bynnag, dywedodd fod y rhagolygon ar gyfer sicrhau bod mentrau cymdeithasol a chydweithredol yn cael eu harwain gan blant a phobl ifanc eu hunain yn gyfyngedig iawn. Roedd gan yr NSPCC bryderon am sut y bydd y canllawiau yn cynorthwyo awdurdodau lleol i weithio o ddifrif gyda phlant a phobl ifanc i'w cynorthwyo i gymryd rhan wrth gynllunio a gweithredu gwasanaethau. Byddai'n heriol

sicrhau cyfranogiad gan rai grwpiau o blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n anodd eu cyrraedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rhoi pobl yn y canol, sicrhau dull sy'n amlwg yn seiliedig ar berthynas gydradd, yw'r ysgogwr ar gyfer y dull hwn. Ceir heriau ac mae'r pryderon penodol a godwyd gan ymatebwyr yn ddefnyddiol o ran tynnu sylw at yr heriau hyn.

Mae ymrwymiad i ddarparu cymorth ychwanegol yn 2015-16 i ddatblygu'r sector a chynorthwyo awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau arweinyddiaeth cenedlaethol sy'n sicrhau arweinyddiaeth drawsbleidiol a thraws-sector ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Mae trefniadau arweinyddiaeth rhanbarthol ar yr ôl troed Bwrdd Iechyd Lleol yn mynd rhagddynt bellach, gyda phaneli dinasyddion rhanbarthol i'w sefydlu yn 2015-16. Bydd hyn yn cryfhau cyfranogiad dinasyddion ac yn cynorthwyo'r ymrwymiad i gynnwys pobl wrth weithredu'r Ddeddf ac o ran cynllunio a gweithredu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phlant yng Nghymru a Voices from Care i ddatblygu dull cenedlaethol o gryfhau llais plant a phobl ifanc yn y broses weithredu.

Mae cryn waith gwerthfawr wrth gynnwys pobl; plant, pobl ifanc ac oedolion - yn barhaus a bydd hyn yn gysylltiedig â rhaglen yr asesiad o'r boblogaeth lle y bo'n briodol i sicrhau bod cyfeirio clir at adnoddau a bod canllawiau ac offer ymarfer pellach yn cael eu datblygu. Mae'r cod yn tynnu sylw at waith a wnaed gydag Anabledd Cymru ynghylch dileu rhwystrau i gyfranogiad a byddwn am sicrhau bod hyn yn parhau i gael ei hyrwyddo. Mae'r cod wedi'i gryfhau i gyfeirio at gyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae dolen i adnoddau ychwanegol i helpu awdurdodau lleol i gynnwys plant a phobl ifanc wedi cael ei gynnwys.

Cwestiwn 14:

	14. I ba raddau rydych yn cytuno y bydd y safonau cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn y bennod hon yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy o ansawdd uchel i bawb?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
Cyfanswm -	5	39	8	0	31
Crynodeb					
Roedd cryn gefnogaeth i ddatblygu a chymhwyso Safonau Darparu Gwasanaeth Cenedlaethol gydag 85 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno y byddai'r safonau yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu					

Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy o ansawdd uchel. Gwnaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gefnogi'r farn bod y Safonau'n cynnig fframwaith cymesur ar gyfer disgwyliad y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy, er mai'r ddarpariaeth a phrofiadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau fyddai'n penderfynu a fyddai hyn yn cyfateb i wasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Gofal Cymru, Sense Cymru a Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) yn teimlo bod angen mwy o eglurder ar y safonau cenedlaethol hyn, a sut y byddai'r rhain yn gweithio.

Roedd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cefnogi cyflwyno safonau gan nodi eu bod yn teimlo y byddai safonau'n helpu i gynllunio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oeddent yn glir pa sancsiynau fyddai'n cael eu defnyddio pe bai awdurdodau lleol yn methu dilyn y safonau. Roedd ADSSC a CLILC hefyd yn pryderu ynghylch beth fyddai'r effaith, a pha sancsiynau y gellid eu gosod, os na fyddai sefydliadau partner yn integreiddio ag awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn yr un modd mynegwyd pryder mai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn gyfrifol am Wybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy, yn hytrach na bod yn gyfrifoldeb corfforaethol.

Gwnaeth rhai ymatebion, yn enwedig Barnardo's Cymru a'r Comisiynydd Plant, gais i'r safonau cenedlaethol a ddatblygir gael eu cysylltu â'r fframweithiau safonau cenedlaethol a sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth penodol fel y rhai a ddatblygwyd i bobl ifanc, cyngor ar fudd-daliadau a chynghor ar ddiwygiadau lles.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r cod ymarfer nodi'n glir pa elfennau o'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy fyddai eu hangen bob awr o'r dydd a'r nos. A hwythau'n cynrychioli safbwynt y defnyddiwr, nododd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru mai didueddrwydd ddylai fod yn gonglfaen i'r Gwasanaeth a phwysleisiodd RNIB Cymru'r angen i'r holl wybodaeth a chynghor fod yn hygyrch gan gynnwys i'r rhai ag anawsterau synhwyraidd.

Nododd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod angen i eiriolaeth chwarae rhan gryfach yn y cod ymarfer a'i bod yn hanfodol i lwyddiant y system newydd. Nododd y comisiynydd ei bod yn bwysig nad oedd gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn drwy'r safonau a'u bod yn cael yr un lefel o wasanaethau â phawb arall.

Y prif ymatebwyr ar y pwnc hwn oedd: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, CLILC, BASW, RNIB, Sense Cymru, Cyngor Gofal Cymru, RNIB Cymru, Hafal, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn ac AGGCC.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyniodd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed o ran

safonau cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

Mae gwaith a gomisiynwyd gan Gyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth Cymru o dan yr Adolygiad Gwasanaethau Cyngor Cenedlaethol, eisoes yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau ar gyfer sut y gellir datblygu safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyngor i Gymru. Y bwriad yw defnyddio'r gwaith hwn ac edrych i greu naill ai cyfres o Safonau Cenedlaethol neu fframwaith i weithio ynddo. Bydd Rhwydwaith Gwasanaethau Cyngor Cymru Gyfan yn ystyried yr adroddiad dros haf 2015 a cheisio cynghori ar y dull i'w gymryd.

Wrth i'r safonau hyn gael eu sefydlu, byddai sancsiynau'n cael eu datblygu ac esboniad o sut y byddai'r rhain yn cael eu cymhwyso pe bai'r awdurdod lleol yn methu dilyn y safonau a phe bai sefydliadau partner yn methu gweithio mewn modd integredig gydag awdurdodau lleol. Ymgynghorir ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod y dyletswyddau newydd yn cael eu cynnwys mewn arolygiadau, yn benodol mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau yn erbyn y safonau cenedlaethol.

Bydd y cod ymarfer yn cael ei gryfhau i sicrhau bod adran newydd ar eiriolaeth yn cael ei chynnwys. Bydd y cod yn nodi y gall eiriolaeth gael ei darparu gan deulu, ffrindiau neu rwydwaith cymorth ehangach rhywun. Fodd bynnag, bydd adegau lle nad yw'r brif ffynhonnell eiriolaeth hon ar gael am ba bynnag reswm. Bydd yn ofyniad ar awdurdodau lleol i sicrhau bod eiriolwr annibynnol yn cael ei ddarparu, am ddim cost i'r unigolyn, er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn llawn a gallu cyfranogi yn y broses.

Bydd y cod hefyd yn cael ei egluro i nodi nad yw'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy yn wasanaeth brys ac felly does dim disgwyl y byddai angen adnodd staff arno bob awr o'r dydd a'r nos. Dylai bodolaeth gwefan neu ap ffôn symudol hygyrch olygu bod pobl yn gallu dod o hyd i wybodaeth a chyngor eu hunain y tu allan i oriau a dylent ddisgwyl cael ymateb i ymholiadau o fewn cyfnod amser penodol.

Bydd y cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy yn cael ei symud o fod yn gyfrifoldeb Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig a bydd y cod ymarfer yn nodi y bydd hwn bellach yn gyfrifoldeb corfforaethol.

Ar y cyfan, bydd y cod ymarfer yn cael ei gryfhau i sicrhau bod disgwyliad y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy o safbwynt y defnyddiwr yn gliriach, a bod awdurdodau lleol yn hyddysg am sut y dylent newid wyneb gwasanaethau cymdeithasol, drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy i sicrhau eu bod yn fwy agored, ymatebol ac yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar.

Cwestiwn 15:

Beth arall sydd ei angen yn y bennod hon i sicrhau Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy sy'n hygyrch ac yn ymatebol i bawb?

Crynodeb

Roedd hygyrchedd y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy yn thema gref drwy'r ymatebion. Amlygodd yr ymatebion yr angen i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth yn hawdd mewn fformat sy'n addas iddynt hwy, yn enwedig gan RNIB Cymru, Sense Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo bod angen cael cysylltiad cryfach â'r weithdrefn gwyno yn y Cod ymarfer; ac amlygodd yr ymatebion hefyd yr angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy i'r cyhoedd.

Ailbwysleisiodd y Comisiynydd Plant yr angen i gysoni'r safonau a fabwysiadwyd ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy â'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Bobl Ifanc, oherwydd bod y rhain wedi eu datblygu gan blant a phobl ifanc eu hunain.

<http://www.promo-cymru.org/resources-2/national-standards-quality-assurance-framework>

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at yr angen i'r 'Cyfeirlyfr Gwasanaethau' sy'n sail i'r Gwasanaeth fod yn fenter ar y cyd ond roedd y rhan fwyaf yn teimlo nad oedd y cod ymarfer, fel y'i drafftwyd, yn ddigon clir ynghylch yr hyn y byddai'r Cyfeirlyfr yn ei gynnwys, pa bartneriaid fyddai'n cyfrannu ato a sut y byddai'n cael ei gynnal. Awgrymodd y trydydd sector gyfeirio da at wefannau arbenigol, yn enwedig y rhai sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus a faint o wybodaeth sy'n cael ei rhannu rhwng sefydliadau partner.

Roedd mwyafrif sefydliadau'r trydydd sector, a'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau diddordeb arbennig, yn glir y dylai'r Gwasanaeth gael ei weithredu gan staff medrus â gallu i gynorthwyo pobl i gyfranogi a chael mynediad i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy waeth beth yw eu hanghenion cyfathrebu penodol – ac y dylid cryfhau'r cysylltiadau rhwng y bennod hon ac eiriolaeth. Gwnaeth llawer hefyd gwestiynu'r angen i'r Gwasanaeth weithredu bob awr o'r dydd a'r nos am nad oedd yn wasanaeth brys.

Nodwyd hyfforddiant fel ffactor hanfodol i'r holl staff sy'n darparu'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a

	<p>galwodd yr ymatebwyr am hyfforddiant arbenigol penodol.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru:</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol, a'u partneriaid rhanbarthol, i weithredu'r dyletswyddau a'r trefniadau newydd o dan y Ddeddf, gan gynnwys ar gyfer awdurdodau lleol o ran hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy newydd a rhoi cyhoeddusrwydd iddo wrth iddynt ddynesu at fis Ebrill 2016.</p> <p>Mae Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) wedi cael ei chomisiynu i ddatblygu offer cyfathrebu i gynorthwyo darpariaeth leol. Mae'r AGGC yn datblygu porth cenedlaethol i gynorthwyo pobl i gael gafael ar wybodaeth ar y wefan yn genedlaethol; a bydd yn darparu cyfeirlyfr a rhwydwaith gwybodaeth rhanbarthol i gynorthwyo mewnbynnu a chynnal data ar gyfer y cyfeirlyfr yn barhaus.</p> <p>Mae Cyngor Gofal Cymru, fel y corff arweiniol ar gyfer datblygu'r gweithlu, yn arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth dysgu a datblygu genedlaethol i sicrhau bod gweithlu medrus yn ei le erbyn mis Ebrill 2016 ac ar ôl hynny. Mae Cyngor Gofal Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau y bydd y strategaeth yn cwmpasu <u>pawb</u> sy'n cymryd rhan wrth ddarparu gofal cymdeithasol, a bod hyfforddiant ar gael hefyd i'r rhai sy'n gweithio i sefydliadau partner.</p> <p>Bydd y cod ymarfer yn cael ei ddiwygio i ddatgan yn glir y disgwyliadau y tu allan i oriau a sicrhau ei bod yn glir nad oes disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth â staff bob awr o'r dydd a'r nos. Bydd y Cod yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng y penodau ar eiriolaeth a chwynion yn cael eu cryfhau.</p>
--	---

Cwestiwn 16:

<p>A oes elfennau o'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy y gellid eu cyflawni'n well drwy gydweithio cenedlaethol rhwng awdurdodau lleol?</p>	
Crynodeb	<p>Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda'r farn wedi ei rhannu o ran yr hyn fyddai'r model cyflawni gorau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai gwahanol elfennau o'r gwasanaeth yn cael budd o gael eu darparu ar</p>

lefelau gwahanol h.y. yn genedlaethol; yn rhanbarthol neu yn lleol.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi integreiddio cryf a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, iechyd, tai a sefydliadau'r trydydd sector.

Roedd cefnogaeth gref i wefan genedlaethol ac am gydweithio cenedlaethol ar ddatblygu a chynnal hyn.

Roedd cefnogaeth glir hefyd i ddefnyddio adnoddau sydd eisoes ar gael yn hawdd a lleihau dyblygu ymdrech, gan gynnwys yr arbenigedd a'r wybodaeth am ddarparwyr cyngor cenedlaethol ond ar yr un pryd cadw teimlad lleol a fyddai'n cynorthwyo pobl i gael mynediad i gymorth lleol yn eu hardal a gwneud yr ymateb yn ystyrlon iddynt.

Ceisiwyd sicrwydd bod yn rhaid i staff sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy gael hyfforddiant priodol a meddu ar y sgiliau priodol. Rhaid i staff feddu ar wybodaeth benodol am anabledd dysgu / byddar a dall a heriau eraill sy'n wynebu unigolion er mwyn iddynt allu eu cynorthwyo i gael mynediad i'r Gwasanaeth mewn ffordd sydd fwyaf addas iddynt hwy ac i staff ddeall pwysigrwydd gwahanol arddulliau cyfathrebu.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) wedi ei chomisiynu i ddatblygu'r offer cyfathrebu i awdurdodau lleol roi cyhoeddusrwydd i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a'i hyrwyddo yn lleol yn ogystal â phorth cenedlaethol i helpu pobl i gael mynediad i wybodaeth a chyngor yn genedlaethol.

Bydd datblygu gwefan genedlaethol hefyd yn cael ei hystyried gan AGGC wrth iddi gynorthwyo awdurdodau lleol.

Bydd y Cod Ymarfer yn cael ei ddiwygio i ddarparu mwy o eglurder ar ba elfennau o'r gwasanaeth y dylid eu hystyried fel y rhai sy'n fwyaf addas i'w darparu yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu yn lleol. Bydd y Cod ymarfer diwygiedig yn sicrhau bod cydweithio rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael ei gryfhau nid yn unig ym Mhennod 5, Rhan 2 ond hefyd yn Rhan 9 lle mae'r dyletswyddau partneriaeth a chydweithredu wedi'u nodi.

Mae sefydliadau cynrychiadol, gan gynnwys nam ar y ddau synnwyr, yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru i sicrhau bod y strategaeth ddysgu a datblygu yn ystyried yr holl unigolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i gael gofal a chymorth priodol er mwyn cael mynediad i'r Gwasanaeth

	<p>Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy ac i gael gafael ar wasanaethau gofal a chymorth.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i gydbwysu'r ffaith bod y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy wedi ei gynllunio a'i ddatblygu mewn ffordd i sicrhau mynediad cyfartal i bawb, ac i ddarparu parhad dull ledled Cymru; gyda hyblygrwydd. Mae awdurdodau lleol wedi dadlau'n gryf dros hyblygrwydd er mwyn iddynt allu adeiladu ar eu gallu a'u hadnoddau presennol yn ogystal â chanfyddiadau'r asesiad o'r anghenion poblogaeth wrth gynllunio gwasanaeth sy'n diwallu anghenion eu hardal leol eu hunain.</p>
--	--

Cwestiwn 17:

<p>A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?</p>	
Crynodeb	<p>Gwnaeth sawl ymateb sylw y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig oherwydd bod y cod i bawb. Bydd darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar y person, rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth i bobl, ymgysylltu ystyrlon a chydnabod cryfderau pobl yn cael effaith gadarnhaol ar gyfer y grwpiau hyn o bobl.</p> <p>Nododd rhai ymatebwyr fod cyflawni effeithiau cadarnhaol yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn gweithredu'r Ddeddf a'i rheoliadau a chodau ymarfer cysylltiedig yn gywir wrth ddarparu mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros eu gofal a'u cymorth.</p> <p>Nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLILC y bydd cryn dipyn yn dibynnu ar ansawdd yr ymgysylltu â grwpiau â nodweddion gwarchoddedig a bod angen dealltwriaeth o'r gwahaniaethau diwylliannol ac ystyried sut i nodi a chynnwys rhai o'r grwpiau llai â nodweddion gwarchoddedig, oherwydd efallai na fydd yn hawdd eu cynnwys mewn elfennau fel yr asesiad o'r boblogaeth. Fodd bynnag, os yw'r cyswllt a'r ymgysylltu hwnnw o ddifrif, o ran gwranddo ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud am yr hyn sy'n ymyrryd â hwy'n cael mynediad i wasanaethau a chael eu cymryd o ddifrif ac yn dilyn hynny yn gweithredu ar eu hymateb, bydd y rhan hon o'r Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau o bobl a nodwyd uchod.</p> <p>Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr gais clir y dylai'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy ddarparu cymorth wedi</p>

	<p>ei dargedu a'i deilwra i bobl o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru:</p> <p>Bydd y Cod ymarfer ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy yn cael ei gryfhau i sicrhau bod y rhai â nodweddion gwarchoddedig (Byddar a dall/ Anableddau Dysgu) yn gallu cael mynediad i staff medrus a chanddynt wybodaeth am eu hanghenion anabledd a chyfathrebu wrth gael mynediad i'r Gwasanaeth.</p>
--	--

Cwestiwn 18:

A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?	
Crynodeb	<p>Rhoddodd rhai ymatebwyr sylwadau ar yr angen i ymatebion gael eu hystyried a gweithredu arnynt er mwyn sicrhau nad yw'r cynigion yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gall gwasanaethau gael eu lleihau os bydd yr adnoddau yn cael eu symud tuag at wasanaethau ataliol; a gall hyn arwain at lai o ddewis a gostyngiad yn argaeledd y gwasanaethau dwys sydd eu hangen ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Tynnwyd sylw at bwysigrwydd eiriolaeth i sicrhau bod gan bobl lais o ystyried y bydd gwasanaethau yn cael eu darparu yn wahanol, a hefyd yr angen i gryfhau'r trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau.</p> <p>Nododd rhai ymatebion angen i bobl beidio â chael eu dosbarthu fel rhai y disgwylir iddynt fod ag anghenion penodol. Mae rhai o'r farn bod hyn yn risg i'r dull o ganolbwyntio ar y person sy'n cael ei arddel yn y Ddeddf. Nododd Mind fod risg y bydd unigolion yn cael eu diffinio gan eu rolau, er enghraifft fel gofalwr, yn hytrach na pherson aml-weddog, er enghraifft gofalwr â phroblemau iechyd meddwl. Nodwyd y bydd angen bod yn ofalus i atal hyn rhag digwydd.</p> <p>Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar bobl ag anableddau ac mae galwad i gyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl</p>

	<p>ag Anableddau yn y cod.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru</p> <p>Bydd cod ymarfer ar eiriolaeth yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori arno o dan ail gyfres ein rhaglen weithredu ar gyfer y Ddeddf</p> <p>Bydd y cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 yn cynnwys gofynion ar awdurdodau lleol i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.</p>
--	---

Cwestiwn 19:

Bydd ailgydbwyso'r system gofal a chymorth i gyflawni'r fframwaith cyfreithiol newydd yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau. Beth yw'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn?

Crynodeb	<p>Yn yr ymateb ar y cyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLILC nodwyd bod hyfforddiant a datblygu staff yn hanfodol er mwyn i'r newidiadau gofynnol ddod yn nodwedd gyffredin yn arfer bob dydd staff rheng flaen yr holl asiantaethau a holl feysydd gwasanaeth awdurdodau lleol. Mae angen anogaeth drwy ddangos dealltwriaeth o'r newidiadau a'r heriau gan reolwyr gweithredol a strategol, aelodau etholedig cynghorau ac aelodau anweithredol o Fyrddau Iechyd Lleol.</p> <p>Nodwyd technoleg newydd fel cyfle. Gall hyn ei gwneud yn ofynnol cael adnoddau ychwanegol i ddatblygu'r dechnoleg ac annog ei defnydd.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Bydd arweinyddiaeth genedlaethol yn cael ei hategu a'i hyrwyddo gan Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Grŵp Arweiniad a Phanel y Dinasyddion. Mae trefniadau arweinyddiaeth rhanbarthol bellach yn eu lle ar sail yr ôl troed Sector Cyhoeddus ac mae cyllid ychwanegol wedi ei ddarparu i gynorthwyo'r trefniadau hyn.</p> <p>Mae hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yn hanfodol i lwyddiant y</p>
-----------------	---

	<p>gweithredu ac mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyngor Gofal Cymru i arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth dysgu a datblygu. Mae'r strategaeth hon yn allweddol i weithredu'r Ddeddf a bydd angen arweinyddiaeth barhaus, fwriadol a phroffil uchel, a all estyn allan ar draws amrywiaeth eang o sefydliadau a phartneriaid y tu hwnt i ffiniau gofal a chymorth cymdeithasol traddodiadol. Mae'r Cyngor wedi datblygu'r gwaith hwn gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod strategaeth sy'n cwmpasu pawb sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth, ynghyd â'u partneriaid allweddol, a'i bod yn cael ei chyflawni ar y cyd â phartneriaid ac mewn cydweithrediad â hwy.</p>
--	--

Cwestiwn 20:

<p>Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod inni amdanynt.</p>	
<p>Crynodeb</p>	<p>Roedd barn gref bod eiriolaeth ac eiriolaeth annibynnol ar goll o'r Ddeddf, yn enwedig ar y pwynt mynediad, drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy. Gwnaed cais i gyflawni ymrwymiad Gweinidogol blaenorol, o ran cael cyfeiriad clir at y "Canllawiau Polisi ar gyfer Gofal a Chymorth i Blant ac Oedolion Byddar a Dall".</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru:</p> <p>Mae'r materion hyn wedi eu cydnabod ac aed i'r afael â hwy. Gweler yr ymateb i gwestiynau 14 ac 16.</p>

Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol Ydy / Nac Ydy	Enw	Sefydliad/Ar ran
1.	✓	Wayne Crocker	MENCAP Cymru
2.	✓	Keith Matthews	Grŵp SOS, achub ein gwasanaethau
3.	✓	Peter Martin	Hafal
4.	✓	Ruth Northway	Grŵp Cyngori ar Anableddau Dysgu
5.	✓	Beth Evans	Gofalwyr Cymru
6.	✓	Richard Williams	Action on Hearing Loss Cymru
7.	✓		
8.	✓		
9.	✓	Lynne Doyle	CBS Castell-nedd Port Talbot
10.	✓	Mike Mainwaring	CGG Castell-nedd Port Talbot
11.	✓	Catrin Mair Edwards	Sense Cymru
12.	✓	Eve Parkinson	Pwyllgor Cyngori Therapiau Cymru
13.	✓	Colin Hopwood	Unigolyn
14.	✓	Adrian Roper	Fforwm Datblygu Cwmnïau Cydweithredol Cymdeithasol
15.	✓	Peter Jones	Cŵn Tywys Cymru a Blind Children UK Cymru
16.	✓	Rosemary Burslem	Unigolyn
17.	✓	Constance Adams a Bryan Collis	CGGC
18.	✓		
19.	✓	Rosanne Palmer	Age Cymru
20.	✓	Natasha Wynne	Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro
21.	✓	Nigel Champ	Llywodraeth Cymru
22.	✓	Morwena Edwards	Cyngor Gwynedd
23.	✓	Rachel Lewis	Cynghrair Henoed Cymru
24.	✓	Joe Powell	Pobl yn Gyntaf Cymru
25.	✓		
26.	✓	Parry Davies	Cyngor Sir Ceredigion
27.	✓	Cecile Gwilym	NSPCC Cymru
28.	✓	Meleri Thomas	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru [NAS Cymru]
29.	✓	Laurence Thraves	Cymdeithas Alzheimer's
30.	✓	Tess Saunders	RNIB Cymru
31.	✓	Dr Edwin Jones (Cadeirydd) a'r Athro Kathy Lowe	Is-grŵp LDAG - Trawsnewid Gofal yng Nghymru i bobl ag anableddau dysgu ac ymddygiad heriol
32.	✓	Kathryn Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
33.	✓	James Crowe	Anabledd Dysgu Cymru
34.	✓	Deborah Driffield	Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe

35.		✓	Lynne Hughes	Cymdeithas MS Cymru
36.		✓	Gareth Llwyd	Cyngor Sir Ynys Môn
37.		✓	Jacqueline Davies	Powys - Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CPPI)
38.		✓	Ruth Crowder	Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
39.		✓	Kieron Rees	Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
40.		✓	Ruth Crowder	Cynghair Ailalluogi Cymru
41.		✓	Ian Thomas	Cyngor Gofal Cymru
42.		✓	Robin Moulster	BASW Cymru
43.		✓	Ruth Coombs	Mind Cymru
44.	✓			
45.		✓	Dr Sam Clutton	Barnardo's Cymru
46.		✓	Keith Towler	Comisiynydd Plant Cymru
47.		✓	Rachel Williams	Parkinson's UK Cymru
48.		✓	Neil Ayling	Cyngor Sir y Fflint
49.		✓	Judith Brooks	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Gofal Cymdeithasol i Oedolion
50.		✓	Cathrin Manning	Y Groes Goch Brydeinig
51.		✓	Philippa Ford	Cymdeithas Ffisiotherapi Siartredig
52.		✓	Nicola Evans	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
53.		✓	Bethan M Jones Edwards	Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru
54.		✓	Yvonne Owen-Newns	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
55.		✓	Dusty Kennedy	Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid
56.		✓	Suzanne Griffiths	Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
57.		✓	Rhea Stevens	Gweithredu dros Blant
58.		✓	Ian Thomas	Cyngor ar Bopeth Cymru
59.		✓	Phil Evans	Cyngor Bro Morgannwg
60.		✓	Jenny Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
61.		✓	Giovanni Isingrini a Steve Thomas	Ymateb ar y cyd gan ADSS Cymru a CLILC
62.		✓	Paul Apreada	FNF Both Parents Matter
63.		✓	Peter Max	Unigolyn
64.		✓	Rhian Stangroom-Teel	Leonard Cheshire Disability
65.		✓	Dominic Carter	Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig
66.		✓	Sian Walker a Tony Young	Cyngor Dinas Caerdydd
67.	✓			
68.		✓	Ele Hicks	Diverse Cymru
69.		✓	Martyn Palfreman	CYDWEITHFA IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU
70.		✓	Mair Kromei	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
71.		✓	Rachel Gingell	Gofalu ac Atgyweirio Cymru
72.		✓	Alex Bird	Mentrau Cydweithredol Cymru
73.		✓	David Smith	Cydweithredwyr Blaengar Cymru

74.		✓	Owen Williams	Cyngor Cymru i'r Deillion
75.		✓	Judith Hall	AGGCC - Bwrdd Cyngori Cenedlaethol
76.		✓	Sara Harvey	Rhaglen Bae'r Gorllewin
77.		✓		Voices from Care
78.		✓	Roger Bishop	Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan
79.		✓	Katie Dalton	Gofal
80.		✓	Marshall Phillips	Is-Bwyllgor Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi
81.		✓	Bobby Bolt	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
82.		✓		Time2Meet
83.		✓		Gofalwyr Cymru
84.		✓	Paul Swann / Rick Wilson	Anabledd Cymru / Cynghair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion